



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

**CYNGOR BWRDEISTREF
SIROL MERTHYR
TUDFUL
ADRODDIAD MONITRO
BLYNYDDOL YR IAITH
GYMRAEG AR GYFER
2018-2019**

	Tudalen
ADRAN 1: RHAGAIR	3
ADRAN 2: CYFLWYNIAD A CHEFNDIR	4
ADRAN 3: CYNNYDD AR WEITHREDU SAFONAU'R GYMRAEG	5
ADRAN 4: MANYLION CYSWLLT	15

Derbyniodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ei Hysbysiad Cydymffurfiaeth terfynol gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 30 Medi 2015. Amlinellodd hyn ddyletswydd y Cyngor i fodloni Safonau'r Gymraeg statudol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Rhoddodd y Mesur hwn statws cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg fel na ellir trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Cyflwynwyd Safonau'r Gymraeg i sicrhau y gall y rhai yng Nghymru sy'n dymuno byw eu bywydau yn Gymraeg wneud hynny trwy orfodi Cynghorau a chyrrff sector cyhoeddus eraill i ddarparu'u gwasanaethau yn Gymraeg.

Mae Safonau'r Gymraeg yn mynnu bod y Cyngor yn llunio Adroddiad Blyneddol, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n ymdrin â'r ffordd y mae wedi cydymffurfio â Darparu Gwasanaethau, Llunio Polisiâu a Chynnal Safonau Gweithredol. Mae'r Safonau hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cyhoeddiad a chyhoeddusrwydd yr Adroddiad Blyneddol.

Mae'r Adroddiad hwn yn nodi cynnydd y Cyngor tuag at gydymffurfio â'r Safonau yn ystod y flwyddyn ariannol 2018/2019.

Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i annog ei holl gwsmeriaid i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg, ac i greu amgylchedd lle maen nhw'n teimlo y gallant ddefnyddio'r Gymraeg wrth ryngweithio â'r Cyngor.

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r Sector Gwirfoddol (yn benodol Menter Iaith Merthyr Tudful) i'n helpu i gyflawni ein rhwymedigaethau yn llwyddiannus i'r gymuned o dan y ddeddfwriaeth.

Y Cynghorydd Chris Davies

**Yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Hyrwyddwr Iaith Gymraeg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful**

CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

SAFONAU'R GYMRAEG

Yn 2011, cafodd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ei disodli gan Fesur y Gymraeg (Cymru) ac fel rhan o'r ddeddfwriaeth newydd yng Nghymru, mae gan y Gymraeg statws cyfreithiol cyfartal â'r Saesneg ac ni ddylid ei thrin yn llai ffafriol. Nid oes raid bellach i gyrrff cyhoeddus ddatblygu a gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg, ond mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â set o Safonau'r Gymraeg yn lle hynny.

Mae'r Safonau'n esbonio'r modd y disgwylir i sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Mae'r Mesur yn sefydlu fframwaith cyfreithiol i osod dyletswydd ar rai sefydliadau i gydymffurfio â safonau ymddygiad ar y Gymraeg. Mae'r Mesur yn nodi y gall Gweinidogion Cymru, trwy reoliadau, bennu Safonau yn y meysydd canlynol:

- Cyflenwi Gwasanaethau.
- Llunio Polisiâu.
- Gweithredol.
- Hyrwyddo.
- Cadw Cofnodion.

Nod y Safonau yw:

- Gwneud yn glir i sefydliadau beth yw eu dyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg.
- Gwneud yn gliriach i siaradwyr Cymraeg am y gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg.
- Gwneud gwasanaethau Cymraeg yn fwy cyson a gwella eu hansawdd.

CYNNYDD AR WEITHREDU SAFONAU'R GYMRAEG

Mae'r canlynol yn crynhoi peth o'r cynnydd allweddol y mae'r Cyngor yn ei wneud wrth weithredu'r Safonau:

RHAGLEN IAITH GYMRAEG

Mae'r Cyngor wedi datblygu Rhaglen Iaith Gymraeg sy'n cynnwys y 10 prosiect a restrir isod. Mae'r Rhaglen wedi'i strwythuro o amgylch cydymffurfio â'r Safonau, cyfieithu a hyrwyddo'r Gymraeg.

- Ffôn a Derbynfa.
- Gohebiaeth.
- Cyfryngau cymdeithasol.
- Gwefan.
- Hyfforddiant Iaith Gymraeg.
- Ymgyrch #Shwmaergylch.
- Gwaith Cwsmer Cudd.
- Prentis Datblygu Chwaraeon yr Urdd.
- Cyfieithu Cymraeg.
- Adroddiadau Blynyddol ar y Gymraeg.

Mae'r Rhaglen Iaith Gymraeg yn rhan o Raglen Newid a Llesiant y Cyngor sy'n cefnogi'r dasg o gydymffurfio â'r Safonau a chyflawni'r canlynol:

- Nod Llesiant: Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu.
- Strategaeth y Cyngor ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg a Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Miliwn o Siaradwyr Cymraeg.

Fel rhan o drefniadau llywodraethu'r Cyngor ar gyfer ei Raglen Newid a Llesiant, caiff cynnydd y Rhaglen Iaith Gymraeg ei fonitro trwy adroddiadau misol sy'n cyfleu'r uchafbwyntiau i Grŵp Llywio Newid a Llesiant y Cyngor.

PROSIECT Y CWSMER CUDD

Fel rhan o'i raglen wella barhaus ar gyfer y Gymraeg a'i waith hunanreoleiddio i gydymffurfio â'r Safonau, mae'r Cyngor wedi datblygu Prosiect Cwsmer Cudd i weithio mewn partneriaeth â Menter Iaith Merthyr Tudful.

Nod y prosiect yw cyflawni asesiad annibynnol o'r modd y mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau Cymraeg i gymunedau Merthyr Tudful.

Menter Iaith Merthyr Tudful sy'n ymgymryd â'r prosiect hwn ac mae'n defnyddio gwirfoddolwyr a dysgwyr Cymraeg o'r dref ei hun. Cynhaliwyd y prosiect am y tro cyntaf rhwng mis Rhagfyr 2016 a mis Chwefror 2017, ac ers hynny cafodd ei ail8gynnal rhwng mis Chwefror a mis Mawrth 2019.

Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar y meysydd cydymffurfio canlynol ar draws nifer o leoliadau'r Cyngor yn y Fwrdeistref Sirol:

- Ymweliadau wyneb yn wyneb.
- Gwasanaethau dros y ffôn.
- Ymatebion trwy e8bost.
- Gwasanaethau ar8lein.
- Cyfryngau cymdeithasol.

Mae canfyddiadau'r prosiect wedi'u cynnwys mewn adroddiad ysgrifenedig terfynol sy'n cynnwys argymhellion i wella rhai meysydd. Defnyddir unrhyw feysydd sydd i'w gwella i lywio Rhaglen Iaith Gymraeg y Cyngor ar gyfer 2019/2020 a thu hwnt.

ASESU EFFAITH

Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb

Yn unol â gofynion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mabwysiadodd y Cyngor broses i Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA), a oedd yn atodiad gorfodol i adroddiadau ar Raglen Newid a Llesiant y Cyngor, ac ar gyfer y Cabinet a'r Cyngor.

Roedd hyn yn dangos y modd yr oedd Cyngorwyr, Awduron Adroddiad a Rheolwyr Prosiect yn ystyried Cydraddoldeb a'r Gymraeg fel rhan o'u penderfyniadau.

Asesiad Effaith Integredig

Yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf), mae'r Cyngor wedi datblygu Asesiad Effaith Integredig (yr Asesiad).

Nod yr Asesiad yw cefnogi'r Cyngor i ddangos y ffordd y mae'n cynllunio, yn darparu ac yn monitro gwasanaethau yn unol â'r egwyddorion datblygu cynaliadwy a'r ffordd y mae'n ceisio gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Merthyr Tudful, yn awr ac am y cenedlaethau i ddyfod trwy:

- feddwl am effaith **hirdymor** ein gwaith ar bobl ym Merthyr Tudful;
- cymryd ymagwedd **integredig** at wasanaethau, gan edrych ar yr effaith y gallai ein gwaith ei chael ar wasanaethau a sefydliadau eraill;
- **cynnwys** pobl yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt;
- gweithio gydag eraill i ddod o hyd i atebion **cydweithredol**; a
- deall yr hyn sydd wrth wraidd problemau a'u **hatal** rhag digwydd.

Mae'r Asesiad Effaith Integredig (a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 26 Medi 2018) wedi disodli proses yr Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb, ac mae'n ymgorffori Amcanion Llesiant y Cyngor, Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy, Cydraddoldebau, y Gymraeg, a Bioamrywiaeth, i gefnogi'r dasg o lunio penderfyniadau effeithiol a sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
- Adran 6 o Ran 1 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Mae'r Asesiad Effaith Integredig wedi'i gymhwyso ar gyfer cysyniadau prosiect, achosion busnes a phrosiectau fel rhan o Fframwaith Rheoli Prosiectau'r Cyngor, ac fe'i cyflwynwyd yn raddol ar gyfer Adroddiadau i'r Cyngor a'r Cabinet o fis Hydref 2018 ymlaen.

Ategir yr Asesiad Effaith Integredig gan ganllawiau manwl fel bod staff yn cael cymorth i gwblhau'r ffurflen, sydd i'w gweld ar fewnwyd y Cyngor.

Cyhoeddi Canlyniadau

Mae holl ffurflenni'r Asesiad Effaith Integredig yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor ynghyd ag Adroddiadau'r Cabinet a'r Cyngor.

HYFFORDDIANT IAITH GYMRAEG

Hyfforddiant ar Ddefnyddio'r Gymraeg i Gyfarch Cwsmeriaid a Thrin eu Galwadau dros y Ffôn

Gan weithio mewn partneriaeth â Menter Iaith Merthyr Tudful, datblygwyd cwrs i hyfforddi defnyddwyr y Gymraeg i gyfarch cwsmeriaid a thrin eu galwadau dros y ffôn. Nod y cwrs yw gwella sgiliau'r staff fel eu bod yn cefnogi'r modd y mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau Cymraeg i gymunedau Merthyr Tudful. Yn ystod 2017-2018, mae dros 75 aelod o'r staff rheng flaen wedi cael yr hyfforddiant hwn.

Unwaith eto, gan weithio mewn partneriaeth â Menter Iaith Merthyr Tudful, adolygwyd a diweddarwyd y cwrs hyfforddiant ar gyfarch a thrin galwadau er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n addas i'r diben. Yn ystod 2018-2019, mae dros 40 aelod o staff rheng flaen wedi derbyn yr hyfforddiant gloywi, gan gynnwys staff o Ganolfan Gyswilt a Derbynfeydd y Cyngor.

Fel rhan o'r ymgyrch barhaus i wella sgiliau'r staff, bydd y Cyngor yn dal i gyflwyno'r cwrs hwn fel rhan o'i raglen hyfforddi ar gyfer y Gymraeg.

Dysgu Cymraeg Morgannwg

Mae'r Cyngor yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Dysgu Cymraeg Morgannwg i ddarparu cyfleoedd hyfforddi yn y gweithle i staff a Chynghorwyr. Mae hyn yn cynnwys ymgyrch hyrwyddo barhaus i annog staff a Chynghorwyr i fachu cyfleoedd i gael hyfforddiant ar y Gymraeg trwy sesiynau galw8heibio, sesiynau mewnwyd a negeseuon e8bost, yn ogystal â sesiynau blasu.

Mae naw aelod staff wedi llwyddo i ennill Tystysgrif Mynediad CBAC mewn Cymraeg Ail Iaith: Defnyddio'r Gymraeg.

Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor 25 aelod o'r staff yn dysgu Cymraeg yn y gweithle gan amrywio o Lefel Mynediad i Lefel Sylfaen 2. Bydd saith o'r aelodau staff hyn yn sefyll yr arholiad Lefel Sylfaen 2 ym mis Mehefin 2019.

Fel rhan o'r hyfforddiant y mae'r Cyngor yn ei ddarparu ar gyfer defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, mae rhai dysgwyr y Cyngor hefyd wedi cymryd rhan yn y Cynllun Siarad. Mae hwn yn brosiect i helpu dysgwyr ennill hyder wrth ddefnyddio'r iaith y tu allan i'r amgylchedd gwaith, ac mewn sefyllfaoedd arferol bob dydd; er enghraifft, cwrdd am goffi neu ginio.

Gallant gyfarfod bron unrhyw le ar yr amod eu bod mewn mannau cyhoeddus. Maent yn cael eu partneru â siaradwr Cymraeg sydd wedi cytuno i ddarparu 10 awr o amser “un i un” gyda’r dysgwr tros gyfnod o 10 wythnos.

Mae’r prosiect yn datblygu’n dda ac mae’r dysgwyr yn gwerthfawrogi’r fenter yn fawr iawn ac yn elwa o fod yn rhan ohoni.

Mae rhai dysgwyr sy’n gweithio yn y Cyngor hefyd:

- yn ymrestru ar gyfer dosbarthiadau Cymraeg ychwanegol yn ystod yr haf i barhau â’u dysgu.
- yn rhan o Grŵp Siarad Cymraeg sy’n cyfarfod yn rheolaidd i gerdded o gwmpas Parc Cyfarthfa ym Merthyr Tudful.

Gan weithio mewn partneriaeth â Dysgu Cymraeg Morgannwg, rydym hefyd yn parhau i ddarparu cyfleoedd cymdeithasol i ddysgwyr wrando ac ymarfer eu Cymraeg, er enghraifft:

- grwpiau o ddysgwyr yn mynychu’r sioe “Jonathan” ar S4C;
- boreau coffi a digwyddiadau hwyliog yng Nghanolfan Soar ym Merthyr Tudful;
- ym mis Tachwedd 2018, mynychodd grŵp o ddysgwyr Cymraeg o’r Cyngor Ddigwyddiad Cymraeg yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan. Trefnwyd y digwyddiad “Llwybrau Llafar” gan Ddysgu Cymraeg Cenedlaethol yn benodol ar gyfer dysgwyr i ymarfer eu Cymraeg mewn amgylchedd anffurfiol.

Roedd yna ddysgwyr Cymraeg o bob cwr o Gymru yn y digwyddiad. Cafodd y dysgwyr eu rhoi mewn grwpiau i gerdded o amgylch yr Amgueddfa gyda gwahanol diwtoriaid Cymraeg, unwaith eto o bob cwr o Gymru. Roedd gweithgareddau wedi’u cynllunio ar eu cyfer ac er mwyn gallu cymryd rhan roedd yn rhaid iddynt ddefnyddio eu gwybodaeth o’r Gymraeg.

Gair / Dywediad Cymraeg Bob Pythefnos

Er mwyn cefnogi staff a Chynghorwyr, mae’r Cyngor wedi datblygu’r Fenter Gair / Dywediad Cymraeg Bob Pythefnos.

Mae’r ymadroddion byrion Cymraeg yn ymddangos ar sgriniau cyfrifiadur bob pythefnos ac fe’u cynlluniwyd i helpu staff a Chynghorwyr i ddysgu Cymraeg busnes sylfaenol. Anogir staff a Chynghorwyr hefyd i ymarfer yr ymadroddion Cymraeg gyda’u cydweithwyr, eu ffrindiau a’u teuluoedd.

Sgiliau Gwaith i Oedolion 2

Mae Sgiliau Gwaith i Oedolion 2 yn brosiect sydd wedi’i gefnogi gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop trwy Lywodraeth Cymru. Nod y prosiect yw gwella sgiliau pobl ar draws amrywiaeth o gyrsgiau achrededig am ddim.

Yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill 2018 hyd 31 Mawrth 2019, mae Sgiliau Gwaith i Oedolion 2 wedi darparu hyfforddiant achrededig ar sgiliau iaith i 36 o unigolion ym Merthyr Tudful.

Darparwyd hyfforddiant hefyd i unigolion sy’n gweithio yn Y Coleg Merthyr Tudful a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Mae 21 o bobl wedi cwblhau’r Cwrs Sgiliau Derbynfa yn y Gymraeg ac mae 15 o bobl wedi cwblhau’r Cwrs Sgiliau Meithrinfa yn y Gymraeg.

Yn ogystal â hyn, roedd Sgiliau Gwaith i Oedolion 2 yn gweithio mewn partneriaeth â Dysgu Oedolion yn y Gymuned ym Merthyr Tudful, i gyflwyno'r Cwrs Sgiliau Derbynfa yn y Gymraeg i ddeugain o ddysgwyr yn Y Coleg Merthyr Tudful.

Gellir gweld rhagor o wybodaeth am y stori hon mewn datganiad i'r wasg y gellir ei gyrchu isod o'r enw "Seremoni Wobrwy Oedolion":

<https://www.merthyr.gov.uk/news8and8events/latest8news/adult8learner8award8ceremony/?lang=cy8GB&>

Wythnos Addysg Oedolion 2018

Yn ystod Wythnos Addysg Oedolion 2018, roedd Sgiliau Gwaith i Oedolion 2 yn cynnig sesiynau blasu Cymraeg i aelodau'r staff. Rhoddwyd cyfle i'r staff ddysgu neu ymarfer eu Cymraeg mewn amgylchedd anffurfiol a chyfeillgar.

GWIRFODDOLWYR SY'N SIARAD CYMRAEG

I ategu'r Hyfforddiant Gloywi ar Ddefnyddio'r Gymraeg i Gyfarch Cwsmeriaid a Thrin eu Galwadau dros y Ffôn, mae'r Cyngor wedi adolygu a diweddarau ei restr o wirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg a'i gosod ar fewnrwyd y staff.

Mae'r rhestr hon yn nodi'r aelodau staff sydd wedi gwirfoddoli i gynorthwyo'r Cyngor i siarad â chwsmeriaid trwy gyfrwng y Gymraeg, ac maen nhw'n cynnwys siaradwyr rhugl a dysgwyr i'w cefnogi wrth ymarfer eu Cymraeg.

PROFIAD GWAITH CYFRWNG CYMRAEG

Yn ystod haf 2018, ymgwymerodd myfyriwr ysgol sy'n siarad Cymraeg â phrofiad gwaith yn Adran Iaith Gymraeg y Cyngor.

Cafodd y myfyriwr brofiad eang ac amrywiol o weithio yn Adran Iaith Gymraeg y Cyngor, a oedd yn cynnwys:

- mynychu cyfarfodydd;
- gweithio ar wefan a mewnrwyd y Cyngor;
- gweithio gydag Adran Cyfathrebu, Ymgynghori ac Ymgysylltu Corfforaethol y Cyngor;
- ennill dealltwriaeth o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg.

CYFARFODYDD

Erbyn hyn, mae'n arfer cyffredinol i agor cyfarfodydd yn Gymraeg ac mae'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob ffurf yn cael ei annog gan Uwch Reolwyr a Chynghorwyr fel ei gilydd.

GRŴP DEDDF

Mae'r Cyngor yn aelod gweithgar o'r Grŵp Deddf ac yn mynychu ei gyfarfodydd yn rheolaidd. Mae'r Grŵp Deddf yn wirfoddol ac yn cynnwys Swyddogion Iaith Gymraeg ar gyfer cyrff sector cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i ofynion Mesur y Gymraeg (Cymru)

2011. Nod y Grŵp Deddf yw trafod a rhannu gwybodaeth ac arferion da mewn perthynas â'r Gymraeg.

CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG

Mae gan y Cyngor Gynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg ar gyfer 201782020 sy'n cael ei gefnogi gan Gynllun Gweithredu. Mae'r Cynllun yn nodi'r saith canlyniad a restrir isod, a bydd Fforwm CSCA y Cyngor yn monitro'u cyflawniad:

- **Canlyniad 1**
Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.
- **Canlyniad 2**
Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella'u sgiliau iaith wrth drosglwyddo o ysgol gynradd i ysgol uwchradd.
- **Canlyniad 3**
Mwy o fyfyrwyr 14816 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg.
- **Canlyniad 4**
Mwy o fyfyrwyr 16819 oed yn astudio pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith.
- **Canlyniad 5**
Mwy o fyfyrwyr gyda sgiliau uwch yn y Gymraeg.
- **Canlyniad 6**
Darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).
- **Canlyniad 7**
Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus.

DIWRNOD HWYL I'R TEULU YN Y GANOLFAN PLANT INTEGREDIG

Yn ystod mis Awst 2018, rhoddwyd cyfle i blant ym Merthyr Tudful fwynhau gweithgareddau Cymreig yn ystod Diwrnod Hwyl i'r Teulu.

Dyma oedd yr unfed tro ar ddeg i Ddiwrnod Hwyl i'r Teulu gael ei gynnal yng Nghanolfan Plant Integredig Cwm Golau ym Merthyr Tudful ac, fel yn y blynyddoedd blaenorol, roedd yn llwyddiant mawr. Roedd y diwrnod yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau megis cestyll bownsio, wal ddringo a sioe hud ac fe'i cefnogwyd gan bartneriaid allweddol, gan ganiatáu cyfleoedd llawn hwyl i ymgysylltu â'r teulu.

Cynhaliwyd y gweithgareddau Cymreig fel rhan o'r ymdrechion i gefnogi Strategaeth Hyrwyddo Iaith Gymraeg y Cyngor a llwyddodd y digwyddiad i ddenu 1227 o bobl. Yn y digwyddiad, roedd nifer o blant sy'n mynychu Ysgol Gymraeg Rhyd8y8Grug ac Ysgol Gynradd Gymraeg Santes Tudful, yn ogystal â phlant sy'n mynychu darpariaethau Ti a Fi yn y Fwrdeistref Sirol.

PROSIECT PRENTIS DATBLYGU CHWARAEON YR URDD

Mae Gwasanaeth Cymraeg y Cyngor a Heini Merthyr Tudful yn parhau i weithio mewn partneriaeth i gefnogi Prosiect Prentis Datblygu Chwaraeon yr Urdd.

Prif bwrpas y prosiect yw i'r Gymraeg barhau i ddod yn fwy cyffredin yn y gymuned trwy ddarparu ystod o gyfleoedd i blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol trwy gyfrwng yr iaith, ac ar ffurf clybiau ar8ôl8ysgol, clybiau cymunedol a darpariaeth gwyliau.

Bydd plant a phobl ifanc yn elwa o'r cyfleoedd canlynol i hyrwyddo'u Cymraeg:

- mabwysiadu'r Gymraeg fel rhan bwysig o'u hunaniaeth;
- galluogi plant, pobl ifanc a theuluoedd i gael cyfleoedd i ddatblygu sgiliau arwain a sgiliau chwaraeon a hefyd eu defnydd o'r Gymraeg;
- rhoi cyfle i blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol y tu allan i'r ysgol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Dyma rai o ddatblygiadau allweddol y prosiect ar gyfer 2018/19:

Darpariaeth Ar-ôl-ysgol

- Mae pum clwb ar8ôl8ysgol ym Merthyr Tudful yn yr ysgolion a restrir isod. Mae'r clybiau ar8ôl8ysgol yn glybiau aml8gampau lle mae amrywiaeth o wahanol chwaraeon yn cael eu cyflwyno bob wythnos. Mae ysgolion cyfrwng Saesneg hefyd yn gweithio ar sgiliau llythrennedd Cymraeg.
 - Ysgol Gynradd Gymraeg Santes Tudful (Cymraeg).
 - Ysgol Gynradd Rhyd8y8Grug (Cymraeg).
 - Ysgol Gynradd Dowlais (Dwyieithog).
 - Ysgol Gynradd Pantysgallog (Dwyieithog)
 - Ysgol Gynradd Edwardsville (Dwyieithog).

Clybiau Cymunedol

- Mae pum clwb cymunedol ym Merthyr Tudful. Mae'r clybiau hyn i gyd yn cael eu rhedeg yn ddwyieithog ac mewn gwahanol leoliadau ar draws Merthyr Tudful.

Yn ystod tymor yr haf, cynhaliwyd clwb tennis am 10 wythnos o Glwb Tennis Merthyr. Bydd y clwb yn dechrau eto'r haf hwn, gan gynyddu nifer y clybiau cymunedol sy'n rhedeg yn wythnosol i chwech.

Ymgysylltu â Theuluoedd

- Mae Ymgysylltu â Theuluoedd yn un o'r prosiectau sy'n rhan o'r clybiau cymunedol. Mae'r clwb yn anelu at:
 - wella hyder oedolion i fod yn gorfforol weithgar â'u plant;
 - helpu rhieni i ddysgu geiriau ac ymadroddion Cymraeg a fydd yn eu galluogi i helpu'u plant gyda gwaith ysgol a gwaith cartref.

Prosiect Cymraeg ar yr Iard

- Dyfeisiwyd y prosiect hwn ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg i annog y defnydd o'r Gymraeg ar iard yr ysgol.

Cynhaliwyd y prosiect gyda naw ysgol i gael grŵp o 10 disgybl i gyflwyno gêm Cymraeg ar eu hiardiau.

Ymwelir â'r ysgolion a gymerodd ran yn y prosiect unwaith y tymor i gynnig unrhyw gymorth a allai fod ei angen i ymestyn llwyddiant y prosiect.

Gweithio mewn Partneriaeth

Fel rhan o'r prosiect, mae partneriaethau ar waith gyda'r rhanddeiliaid allweddol canlynol i ddarparu cyfleoedd i gefnogi a datblygu'r Gymraeg:

- Menter Iaith Merthyr Tudful.
- Yr Urdd.
- Ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg ym Merthyr Tudful.
- Ysgol Gyfun Rhydywaun ym Mhenywaun.
- Heini Merthyr Tudful.
- Y Gwasanaeth Ieuencid.
- Y Coleg Merthyr Tudful.
- Clwb Tennis Merthyr.

CLWB DYSGU CYMRAEG CALFARIA

Gyda chefnogaeth y Cyngor ac Aelod Cabinet y Cyngor dros Adfywio Cymunedau a Diogelu'r Cyhoedd, sefydlwyd dosbarth Cymraeg cymunedol ym mhentref Heolgerrig ym Merthyr Tudful. Gelwir y dosbarth yn *Glwb Dysgu Cymraeg Calfaria* ac mae'n eiddo i'r gymuned ac yn cael ei redeg ganddi.

Mae'r dosbarth yn cyfarfod un noson yr wythnos ac yn annog y gymuned gyfan i ddod draw i ddysgu, ymarfer, gwella neu ddefnyddio'u Cymraeg mewn amgylchedd cymdeithasol a chroesawgar. Mae gan y dosbarth ei diwtor gwirfoddol ei hun sy'n darparu'r dosbarthiadau ac yn hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddiwylliant a hanes y Gymraeg yn lleol ac yn genedlaethol.

Mae Aelod Cabinet y Cyngor dros Adfywio Cymunedau a Diogelu'r Cyhoedd yn mynychu'r dosbarthiadau bob wythnos, tra bod Swyddog Iaith Gymraeg y Cyngor yn eu mynychu'n rheolaidd i gefnogi'r Grŵp.

Cynhyrchwyd posteri ac mae tudalen a grŵp pwrpasol wedi'u sefydlu ar Facebook i hyrwyddo'r dosbarthiadau ar draws y Fwrdeistref Sirol.

SAFONAU CYFLENWI GWASANAETHAU

Mae'r Cyngor yn ddarostyngedig i 87 o Safonau Gwasanaeth.

Mae 1 Safon Cyflenwi Gwasanaeth dan ymchwiliad.

SAFONAU GWNEUD POLISI

Mae'r Cyngor yn ddarostyngedig i 16 o Safonau Gwneud Polisi.

Nid oes unrhyw Safon Gwneud Polisi dan ymchwiliad.

SAFONAU GWEITHREDOL

Mae'r Cyngor yn ddarostyngedig i 53 o Safonau Gweithredol.

Nid oes unrhyw Safon Weithredol o dan ymchwiliad.

SGILIAU IAITH GYMRAEG CYFLOGEION (AR SAIL Y COFNODION A GYNHELIR YN UNOL Â SAFON 151):

Sgiliau Gwrando	Nifer o Gyflogeion
Pob sgwrs gwaith	108
Mwyafrif sgysiau gwaith	22
Sgysiau arferol	38
Sgysiau cymdeithasol sylfaenol	142
Ymholiadau sylfaenol	431
Dim sgiliau	85
Cyfanswm	826

Sgiliau Darllen	Nifer o Gyflogeion
Pob deunydd gwaith	103
Y rhan fwyaf o ddeunydd	40
Deunydd cyffredin (gan ddefnyddio geiriadur)	61
Deunydd gwaith sylfaenol	103
Geiriau ac ymadroddion sylfaenol	461
Dim sgiliau	58
Cyfanswm	826

Sgiliau Siarad	Nifer o Gyflogeion
Rhugl – pob sgwrs	104
Y mwyafrif o sefyllfaoedd	30
Sgwrsio ag eraill	45
Ateb ymholiadau syml	110
Sgwrs gyffredinol	413
Dim sgiliau	124
Cyfanswm	826

Sgiliau Ysgrifennu	Nifer o Gyflogeion
Sgilgar 8 gwneud gwaith cymhleth	86
Mwyafrif testun ysgrifenedig	36
Testun arferol, gyda chymorth	41
Negeseuon sylfaenol	378
Gohebiaeth syml	78
Dim sgiliau	207
Cyfanswm	826

NIFER YR AELODAU STAFF AETH AR GYRSIAU HYFFORDDIANT A GYNHALIWYD YN GYMRAEG YN YSTOD Y FLWYDDYN (AR SAIL Y COFNODION A GEDWIR YN UNOL Â SAFON 152):

Mae dros 40 aelod o staff rheng flaen wedi cael hyfforddiant i loywi'u sgiliau ffôn a chyfarfchiad yn y Gymraeg, gan gynnwys staff o Ganolfan Gyswilt a Derbynfeydd y Cyngor.

Mae naw aelod staff wedi llwyddo i ennill Tystysgrif Mynediad CBAC mewn Cymraeg Ail Iaith: Defnyddio'r Gymraeg.

Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor 25 aelod o'r staff yn dysgu Cymraeg yn y gweithle gan amrywio o Lefel Mynediad i Lefel Sylfaen 2. Bydd saith o'r aelodau staff hyn yn sefyll yr arholiad Lefel Sylfaen 2 ym mis Mehefin 2019.

OS CYNHELIR FERSIWN GYMRAEG O GWRS YN YSTOD Y FLWYDDYN, CANRAN Y STAFF A FYNCHODD Y CWRS YN GYMRAEG (AR SAIL Y COFNODION RYDYCH YN EU CADW YN UNOL Â SAFON 152)

Ddim yn gymwys.

NIFER Y SWYDDI NEWYDD A GWAG A HYSBYSEBwyd YN YSTOD Y FLWYDDYN A GATEGOREIDDIWYD FEL RHAI LLE - (I) ROEDD SGILIAU IAITH GYMRAEG YN HANFODOL, (II) ROEDD ANGEN DYSGU SGILIAU IAITH GYMRAEG YN DILYN PENODIAD I'R SWYDD, (III) ROEDD SGILIAU IAITH GYMRAEG YN DDYMNOL, NEU (IV) NAD OEDD ANGEN SGILIAU IAITH GYMRAEG (AR SAIL Y COFNODION RYDYCH YN EU CADW YN UNOL Â SAFON 154):

O blith 191 o swyddi, roedd 2 lle'r oedd y Gymraeg yn hanfodol ac roedd 189 lle'r oedd yn ddymunol.

NIFER Y Cwynion A DDAETH I LAW YN YSTOD Y FLWYDDYN SY'N YMWNEUD Â CHYDYMFFURFIANT A'R SAFONAU YR YDYM O DAN DDYLETSWYDD I'W HARDDDEL:

Ni dderbyniodd Adran Cwynion y Cyngor yr un gŵyn ffurfiol mewn perthynas â'r Gymraeg yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019.

Sut i gysylltu â ni

Os hoffech gael copi o'r Adroddiad Blynnyddol hwn mewn unrhyw fformat arall neu ei gyfieithu i iaith arall, cysylltwch â:

Mr Kerry O'Donovan

Rheolwr Cydraddoldeb a Risg Corfforaethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Canolfan Ddinesig
Stryd y Castell
Merthyr Tudful
CF47 8AN
Rhif ffôn: (01685) 725298
E8bost: equalities@merthyr.gov.uk
Gwefan y Cyngor: www.merthyr.gov.uk